Cyngor Cymuned Ganllwyd

Gorffenaf 12fed 2023

Presennol

Cyng D.Morris, G.Hughes,S.Jones, C.Dixon a D.Griffiths.

**Ymddiheuriad** Cyng S.Roberts.

**Cofnodion Mehefin 2023.**

Cynnigodd Cyng S.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng G.Hughes.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi**.

A470-Ganllwyd. Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi cwblhau gwaith ailwynebu yn y lleoliad hwn

Ffordd Hermon ger Hen Buarthdre- Mae Cyngor Gwynedd wedi cwblhau gwaith clirio'r ffordd yn y lleoliad hwn.

7,Derwen Deg,Ganllwyd - bydd adran ADRE yn cwblhau Gwaith ar y ffens gefn.

**Cynghorwr Sir**- Dywedodd y cynghorydd wrth y cyfarfod bod cyfanswm o 12 cais wedi eu gwneud i'r adran dai cyngor yn GANLLWYD a'r trefi cyfagos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gyda hyn mewn golwg cytunodd y cyngor y dylid anfon llythyrau at Carys Williams a Craig ap Iago mewn perthynas â'r dull/polisi o ddyrannu eiddo'r cyngor yn yr ardal.

O fis Medi 2024 ymlaen bydd yn rhaid i berchnogion eiddo sy'n buddsoddi mewn ail gartrefi, busnes Awyr B a B wneud cais am ganiatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd er mwyn cynnal busnes o'r fath.

Adroddiad blynyddol,adroddiad bioamrywiaeth a cynllun hyfforddiant aelodau.

Yn dilyn yr archwiliad mewnol, nodwyd gan yr archwilydd nad oedd gan y cyngor cymuned brotocolau uchod ar waith.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, trafodwyd a chytunwyd ar ar y camau rhagarweiniol canlynol;

Adroddiad Blynyddol— Bydd y Clerc yn drafftio adroddiad rhagarweiniol i'w drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfod yn y dyfodol- mis Medi 2023

Adroddiad Bioamrywiaeth—Bydd Cyng Dixon yn gwneud ymholiadau i ganfod beth sy'n ofynnol mewn adroddiad o'r fath ac a fyddai hynny'n berthnasol i gyngor cymuned Ganllwyd.

Bydd y pwnc yn cael ei drafod ymhellach yn cyfarfod mis Medi 2023.

Cynllun hyfforddiant—Mae’r cynghorwyr wedi cytuno i fynychu dau gwrs yr un yn y flwyddyn ariannol yma.

Bydd y clerc yn cadw cofnod o cyrsiau a fynychwyd.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mehefin 2023.

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £4446.68 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £8.00 |
| E.W.Owen | £216.00 |
| Yn y Banc diwedd mis | £4122.68. |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant  misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Anfonebau.

Awdurdododd y Cyngor dalu'r biliau canlynol;

Partneriaeth toiled (Cyngor Gwynedd) £250.00

Zurich   £462.23

Un Llais Cymru (cwrs Sarah Jones)  £38.00

**Taliadau lwfans i gynghorwyr.**

Yn dilyn trafodaethau dywedodd lori'r cyngor na fydden nhw'n gwneud cais am unrhyw daliad lwfans ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

**Llythyrau& E.Bost**

Bydd y cyngor yn cynnal gwaith i atgyweirio 2 giat llwybr ceffyl Hafod Ffriath- Tyddyn Mawr.